

ECCE4001 Taflen Thema 8:

Y Cysyniad P.I.E. a'n proffil proffesiynol

Mae'r daflen hon yn ymwneud â thair elfen cysyniad Coleman ar gyfer rolau penodol yn y sector rydym yn ei astudio. Wrth wneud, mae'n helpu i fodloni'r Canlyniadau Dysgu canlynol:

- *nodi egwyddorion ymarfer proffesiynol;*
- *ystyried sut i gymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ddamcaniaethol effeithiol;*

Enghraifft 1 – Ymarferydd blynyddoedd cynnar

Perfformiad: mae'n darparu rhyngweithiadau o ansawdd uchel ac yn cefnogi datblygiad iaith; yn ymgysylltu â phob plentyn â pharch; mae cynlluniau gwaith yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Cwricwlwm i Gymru

Delwedd: mae'n cael ei ystyried yn ddigynnwrf, gwybodus, mae'n canolbwyntio ar y plentyn; mae'n cael ei barchu gan deuluoedd a gofalwyr; mae'n nodi angen ac yn cefnogi cydweithwyr pan fo angen

Ymgysylltiad: mae'n rhannu ymarfer mewn cyfarfodydd staff; mae'n mentora staff newydd a myfyrwyr; mae'n cynrychioli'r lleoliad mewn grwpiau gwaith yn ardal yr Awdurdod Lleol

Enghraifft 2 – Gweithiwr Cymdeithasol

Perfformiad: gwaith achos cryf ac asesiadau cywir; mae'n bodloni Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NQS) ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yn gyson; mae'n rheoli llwythi achosion yn effeithiol

Delwedd: mae'n ddibynadwy, yn foesebol, yn broffesiynol; mae ganddo berthnasoedd gwaith effeithiol iawn gyda chleientiaid a chydweithwyr;

Ymgysylltiad: mae'n cyfrannu at gyfarfodydd aml asiantaeth; mae'n arwain trafodaethau diogelu; mae wedi siarad mewn cynhadledd genedlaethol ar Linellau Cyffuriau a Diogelu

Enghraifft 3 – Darlithydd AB

Perfformiad: addysgu a dysgu ardderchog; myfyrwyr yn gwella perfformiad yn gyson; mae asesiadau ac adborth yn bodloni'r safonau ansawdd a osodir gan y Coleg

Delwedd: mae'n cael ei weld fel unigolyn arloesol ac yn fodlon mabwysiadu technegau addysgegol; mae'n canolbwyntio ar fyfyrwyr ac wedi datblygu cysylltiadau cryf â'r tîm

BA Plentyndod, Addysg a Chymdeithas

Gwasanaethau Myfyrwyr; mae'n fodlon cyfrannu at weithgareddau marchnata a recriwtio

Ymgysylltiad: mae'n cyflwyno yn sesiynau DPP i gydweithwyr; mae'n cyfrannu at ail-ddylunio'r cwricwlwm; mae'n cynrychioli'r coleg ar grŵp gwaith cenedlaethol ar ddysgu yn y gweithle